



Arolygiaeth
Prawf EF

Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuencid:

Conwy a Sir Ddinbych

Arolygiaeth Prawf EF, Mai 2024

Cynnwys

Rhagair	3
Sgoriau	4
Argymhellion	5
Cefndir	6
Parth un: Darpariaeth sefydliadol.....	7
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth	7
1.2. Staff	10
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau.....	12
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau	14
Parth dau: Datrysiaidau yn y llys	17
2.1. Asesiad	17
2.2. Cynllunio	19
2.3. Gweithredu a chyflawni	20
2.4. Adolygu	21
Parth tri: Datrysiaidau y tu allan i'r llys.....	22
3.1. Asesiad	22
3.2. Cynllunio	23
3.3. Gweithredu a chyflawni	24
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys	25
4.1. Adsefydlu	27
4.1. Polisi a darpariaeth adsefydlu	27
Rhagor o wybodaeth.....	28

Cydnabyddiaeth

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Yvonne McGuckian, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Ymunodd cyd-arolygwyr o'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ag Arolygiaeth Prawf EM. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EF
Llawr 1af Canolfan Llysoedd
Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
[@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

ISBN: 978-1-916621-21-3

© **Hawlfraint y Goron 2024**

Rhagair


Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid (GCI) ac roedd yn arolygiad ar y cyd a gwblhawyd ochr yn ochr â chydweithwyr arolygu o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS). Rydym wedi arolygu a sgorio GCI Conwy a Sir Ddinbych mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, mae GCI Conwy a Sir Ddinbych yn cael sgôr 'Angen Gwella'.

Arolygwyd y gwasanaeth hwn gennym ar adeg lle bu newid a her sylweddol. Daethom o hyd i dîm arweinyddiaeth cryf a gwybodus yn y GCI sydd wedi bod yn allweddol wrth weithio gyda staff i ddarparu gwasanaeth i blant. Mae'r tîm wedi cyflawni hyn er gwaethaf prinder staff sylweddol a heriau strategol sylweddol, ac wrth weithredu polisiau a ffyrdd newydd o weithio. Canfuom fod rhai enghreifftiau cadarnhaol o waith sy'n cael ei gyflawni gyda phlant yn dyst i ymrwymiad a gwytnwch y tîm arwain a'r grŵp staff.

Fodd bynnag, mae angen cryn ddatblygu ar arweinyddiaeth a threfn lywodraethu strategol y gwasanaeth. Er y bu ymdrechion i adnewyddu ac ailffocysu'r bwrdd rheoli, nid yw'r bwrdd yn gweithredu ar lefel effeithiol eto ac nid oes ganddo gyfeiriad strategol na goruchwyliaeth. Mae aelodau hanfodol o'r bwrdd yn absennol ac mae angen i'r rhai sy'n bresennol gael dealltwriaeth ddyfnach o waith cyfiawnder ieuencid a rôl a swyddogaeth unigryw'r GCI. Mae angen i'r bwrdd gynnal dadansoddiad manwl o anghenion y plant sy'n defnyddio ei wasanaethau, fel blaenoriaeth, er mwyn deall yn llawn pa wasanaethau sydd eu hangen a beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plant y GCI. Mae angen i'r bwrdd hefyd ddeall yn well beth sy'n cyfrannu at y cyfraddau mynediad newydd-ddyfodiaid ac aildroseddu uchel i gefnogi'r GCI i atal plant rhag ymuno â'r system cyfiawnder ieuencid neu esgoli drwy'r system cyfiawnder ieuencid. Mae angen i aelodau'r bwrdd ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n llawn, ac ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau presennol, er mwyn sicrhau eu bod yn arwain y GCI yn strategol yn effeithiol.

Mae gwaith partneriaeth yn gymysg. Gwelsom rai enghreifftiau o waith gweithredol effeithiol, ond, yn gyffredinol, nid yw'r bartneriaeth yn darparu'r gwasanaethau iawn, ar yr adegau iawn, mewn ffordd hygyrch i blant. Fel grŵp o arolygiaethau, roeddem yn bryderus iawn am y diffyg adnoddau a'r ffocws ar bartneriaeth a roddwyd i'r GCI i gefnogi ei waith, yn enwedig methiant hirsefydlog y bwrdd iechyd i ddarparu unrhyw rai o'r gwasanaethau iechyd angenrheidiol i'r grŵp hwn o blant sy'n arbennig o agored i niwed. Nid oes gan aelodau'r bwrdd na'r partneriaid ddealltwriaeth ynghylch a yw plant yn defnyddio eu gwasanaethau neu ba mor effeithiol yw'r gwasanaethau.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, ein hadborth a'n hargymhellion yn cefnogi cynlluniau gweithredu presennol i ddal y bartneriaeth i gyfrif ac i atgyfnerthu ymdrechion i gryfhau'r bwrdd ymhellach. Gyda golwg ar sicrhau bod y bwrdd mewn sefyllfa i symud ymlaen yn gadarnhaol, darparu adnoddau partneriaeth effeithiol, a hwyluso arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.



Martin Jones CBE

Prif Arolygydd Prawf

Sgoriau

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych

Dechreuodd y gwaith maes ym mis Ionawr 2024

Sgôr 13/36

Sgôr gyffredinol

Angen gwella



1. Darpariaeth sefydliadol

1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Annigonol



1.2 Staff

Angen gwella



1.3 Partneriaethau a gwasanaethau

Annigonol



1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau

Angen gwella



2. Datrysiadau yn y llys

2.1 Asesiad

Angen gwella



2.2 Cynllunio

Angen gwella



2.3 Gweithredu a chyflawni

Angen gwella



2.4 Adolygu

Angen gwella



3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

3.1 Asesiad

Da



3.2 Cynllunio

Da



3.3 Gweithredu a chyflawni

Da



3.4 Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys

Angen gwella



Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud saith o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

Dylai Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych:

1. Gynnal dadansoddiad manwl o anghenion er mwyn rhoi gwybod i'r bwrdd a'r bartneriaeth am y gwasanaethau y mae angen eu darparu yn y GCI.
2. Sicrhau bod cytundebau rhannu gwybodaeth effeithiol gyda'r ysgol rithwir er mwyn i blant gael mynediad at y gwasanaeth yn ddi-oed.
3. Monitro mynediad plant at wasanaethau partneriaeth a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mewn modd amserol.

Dylai'r Penaethiaid Gwasanaethau Plant:

4. Sicrhau bod eu gwasanaethau'n cyfrannu'n effeithiol at gadw plant y GCI yn ddiogel ac yn iach drwy ddarparu cynrychiolaeth ar y panel gwneud penderfyniadau y tu allan i'r llys, gan hyfforddi gweithwyr cymdeithasol i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau pan fyddant yn cydweithio ar achosion gyda'r GCI, a chyfrannu at asesu a chynllunio effeithiol ar y cyd.

Dylai Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr:

5. Ddarparu mynediad cyflym at wasanaethau iechyd ar gyfer plant y GCI, a ddylai o leiaf gynnwys gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu; gwasanaethau iechyd corfforol a rhywiol; a gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol.

Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru:

6. Ddarparu'r gweithiwr prawf gorfodol ar gyfer y GCI a gwneud trefniadau dros dro i gefnogi staff y GCI gyda rheoli risg nes y gellir llenwi'r swydd wag.

Dylai Gyrfa Cymru:

7. Ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ôl-16 digonol a hygyrch i bob plentyn yn y GCI sydd ei angen.

Cefndir

Gwnaethom waith maes yn GCI Conwy a Sir Ddinbych dros gyfnod o bythefnos, gan ddechrau gydag asesu achosion ar 15 Ionawr 2024. Roeddem wedi archwilio achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded rhwng 16 Ionawr 2023 a 10 Tachwedd 2023; datrysiadau y tu allan i'r llys a gafodd eu darparu rhwng 16 Ionawr 2023 a 10 Tachwedd 2023. Buom hefyd yn cyfweld â rheolwyr achos fel rhan o asesiadau achos. Yn ystod wythnos 29 Ionawr 2024, fe wnaethom gynnal cyfres o gyfweiliadau ar y cyd ag arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Estyn ac HMICFRS.

Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi'u lleoli yng Nghanolbarth Gogledd Cymru, wedi'u ffinio gan Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd a Phowys. Yn nodweddiadol, mae gan Conwy boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae gan Sir Ddinbych boblogaeth fwy o bobl ifanc. Mae gan y ddwy sir gyfraddau gweithgarwch economaidd gweddol debyg. Mae gan ardaloedd yn Sir Ddinbych lefelau uchel o amddifadedd, yn enwedig tref arfordirol y Rhyl.

Ar gyfer achosion datrysiadau y tu allan i'r llys, mae 11 y cant o blant sy'n hysbys i'r GCI hefyd yn destun achosion amddiffyn plant, mae 10 y cant yn blant mewn gofal, mae 30 y cant wedi cael eu nodi fel plant sydd angen cymorth, mae 40 y cant o blant hefyd wedi cael eu nodi fel rhai sydd wedi profi cam-drin domestig, ac mae gan 35 y cant o blant rieni sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Ar gyfer achosion datrysiadau yn y llys, mae 31 y cant o blant sy'n hysbys i'r GCI hefyd yn destun achosion amddiffyn plant, mae 15 y cant yn blant mewn gofal, mae 62 y cant wedi cael eu nodi fel plant sydd angen cymorth, mae 46 y cant o blant hefyd wedi cael eu nodi fel rhai sydd wedi profi cam-drin domestig, ac mae gan 38 y cant o blant rieni sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau (gwybodaeth wedi ei rhoi gan GCI fel rhan o ffeithlun tystiolaeth ymlaen llaw). Mae data a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod Ionawr 2022 a Rhagfyr 2022 yn cofnodi cyfradd mynediad newydd-ddyfodiaid (fesul 100,000) o 236, lle'r oedd y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn 143 ac ar gyfer Cymru a Lloegr yn 149, a oedd ar un pwynt yr ail uchaf yng Nghymru a Lloegr. Nodir bod y bwrdd o'r farn bod y ffigur hwn yn anghywir.

Mae GCI Conwy a Sir Ddinbych yn GCI dau awdurdod lleol. Mae awdurdod lleol Conwy yn cynnal y gwasanaeth, gyda'r bwriad o gael cysylltiadau strategol a gweithredol ar bob lefel rhwng Conwy a Sir Ddinbych. Goruchwylir y GCI gan gyfarwyddwr strategol gofal cymdeithasol ac addysg Conwy, sydd hefyd yn gadeirydd y bwrdd. Mae'r man gweithio ar gyfer y gwasanaeth ym Mae Colwyn. Pennaeth plant, teuluoedd a diogelu yng Nghonwy sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth, ac mae rheolwr y gwasanaeth yn aelod o'r tîm rheolwyr gwasanaeth ym maes gofal cymdeithasol ar gyfer y ddau awdurdod lleol.

Roeddem wedi archwilio'r gwasanaeth ar adeg pan oedd wedi wynebu 18 mis o ansefydlogrwydd sylweddol, gan gynnwys newid llwyr yn y tîm rheoli. Roedd y trefniadau rheoli yn dal yn rhai interim drwy gydol y cyfnod hwn, a arweiniodd at oedi cyn gwneud penderfyniadau ac o ran cynnydd y GCI, ac, er gwaethaf ymdrechion gorau rheolwyr y GCI, arweiniodd at gyfnod o gryn ansicrwydd i'r holl staff. Cytunwyd ar recriwtio parhaol i'r swyddi rheoli ym mis Ionawr 2024, ychydig cyn ein harolygiad.

Adeg ein harolygiad, nodwyd nad oedd gennym ddigon o wasanaethau partneriaeth mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys iechyd, addysg, diogelwch a lles plant, ac yn deall y risg o niwed y mae plant yn ei pheri i eraill. Roedd nifer y gweithwyr arbenigol ar y tîm wedi lleihau'n sylweddol, a bu symudiad i ddarparu gwasanaethau gan ddefnyddio llwybrau cyffredinol, a arweiniodd at lai o ddarpariaeth arbenigol i ddiwallu anghenion mynediad at y GCI.

Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu darpariaeth y sefydliad, roeddem wedi adolygu tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ymlaen llaw gan y GCI ac wedi cynnal cyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau bwrdd, a staff y bartneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth



Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuentid yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Annigonol

Cryfderau:

- Mae tîm arwain y GCI yn uchel ei barch, yn gweithio'n eithriadol o dda gyda'i gilydd ac wedi cefnogi'r tîm staff drwy 18 mis arbennig o anodd.
- Mae'r tîm arwain wedi bod yn allweddol wrth lunio gwaith y gwasanaeth a'r bwrdd. O ganlyniad, mae staff wedi gallu cynnal achosion cymhleth er nad oes gweithwyr partneriaeth wedi'u gwreiddio yn y gwasanaeth.
- Mae aelodau'r bwrdd wedi cael eu hadnewyddu, gan gynnwys sesiwn gynefino newydd ar gyfer aelodau newydd. Mae cadeirydd y bwrdd yn benderfynol o gael yr aelodau cywir yn eu lle i wella gweithio mewn partneriaeth, craffu a llywodraethu
- Mae'r bwrdd wedi cynnal diwrnod datblygu, gyda chefnogaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru, i helpu aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Ceir gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth, wedi'i ddatblygu gan reolwr y gwasanaeth ac wedi'i chysylltu'n agos â gwella ansawdd y gwasanaethau a gynigir i blant. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth a'r blaenoriaethau perthnasol ar gyfer plant yng Nghymru. Mae cynllun y GCI yn gosod amcanion, ac yn seiliedig ar gynllun gweithredu clir.
- Mae timau arwain a staff y GCI yn rhoi sylw i gefnogi diwylliant, hunaniaeth ac iaith Cymru.

Meysydd i'w gwella:

- Nid yw'r bwrdd eto'n gwireddu'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer y gwasanaeth. Nid oes ganddo ddealltwriaeth aeddfed o waith Cyfiawnder Ieuentid na'i rôl a'i swyddogaeth unigryw.
- Mae rhai aelodau o'r bwrdd yn newydd ac nid ydynt eto'n gallu darparu cefnogaeth effeithiol i'r GCI na'i herio ynghylch rhai o'r diffygion sylweddol a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn.
- Rydym yn cytuno â'r bwrdd bod ei heriau'n ymwneud â gosod cyfeiriad, arweinyddiaeth a pherchnogaeth, cysondeb presenoldeb a'r angen i gysoni ei waith â phartneriaethau strategol eraill.

- Ni roddir digon o flaenoriaeth i blant y GCI ar draws y bartneriaeth. Nid oes cyd-ddealltwriaeth glir ar lefel strategol o sut mae'r bwrdd yn bwriadu darparu'r gwasanaethau y mae ar blant eu hangen i'w hatal rhag troseddu neu ymuno â'r system cyfiawnder troseddol.
- Nid yw aelodau'r bwrdd yn eiriol yn ddigonol dros blant y GCI yn eu sefydliadau eu hunain. Mae gan rai aelodau'r bwrdd olwg rhy optimistaidd o effeithiolrwydd presennol y bwrdd ac maent yn tanamcangyfrif rhai risgiau sylweddol o ran darparu gwasanaethau.
- Mae gwelliannau diweddar wedi cael eu gwneud o ran llywodraethu'r bwrdd, ond nid yw'r rhain yn ddigon i gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen i ddarparu cyfraniadau partneriaeth effeithiol i'r GCI.
- Nid oes gwaith partneriaeth effeithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r GCI.
- Mae diffyg uwch gynrychiolydd iechyd addas ar y bwrdd yn arwyddocaol ac mae'n broblem hirsefydlog, y mae angen mynd i'r afael â hi ar fyrder. Mae hyn wedi golygu nad yw plant y CGI yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd yn brydlon.
- Mae presenoldeb ar y Bwrdd yn anghyson, gyda diffyg cydraddoldeb rhwng aelodau Conwy a Sir Ddinbych. Mae partneriaid Sir Ddinbych wedi'u tangynrychioli ar lefel bwrdd ac ar lefel strategol ac mae angen iddynt gymryd rôl fwy rhagweithiol i sicrhau eu bod yn cyfrannu at waith y gwasanaeth.
- Nid yw pob asiantaeth yn cael ei chynrychioli ar y bwrdd, ac mae diffyg her wedi bod rhwng partneriaid, ac mae hynny'n parhau.
- Nid oes gan aelodau'r Bwrdd fynediad at y data a'r wybodaeth angenrheidiol i ddeall perfformiad neu ddarpariaeth y gwasanaeth. Yn benodol, ar wahân i rai nodweddion sylfaenol, mae'r ddealltwriaeth am y garfan hon o blant, eu hanghenion, ac ansawdd y gwaith a ddarperir iddynt, yn dal yn gyfyngedig. Mae angen i'r bwrdd a'r partneriaid ganfod, adolygu a dadansoddi gwybodaeth ar frys er mwyn eu galluogi i werthuso eu gwasanaethau presennol, eu mapio yn erbyn anghenion plant, ac ystyried ansawdd y gwasanaeth y mae plant yn ei dderbyn.
- Nid oes gan aelodau'r Bwrdd ddealltwriaeth ar y cyd o sut y dylai egwyddorion plant yn gyntaf droi'n ymarfer a darparu gwasanaethau.
- Nid yw'r bwrdd yn deall gwybodaeth allweddol am berfformiad yn ddigon da.
- Er bod y bwrdd yn casglu barn plant a theuluoedd, nid yw'r aelodau'n gwybod a yw eu gwasanaethau'n cael eu defnyddio'n effeithiol neu a ydynt yn diwallu anghenion plant y GCI.
- Prin yw'r ffocws ar amrywiaeth a chydaddoldeb i blant sy'n dod o gymunedau Du a threftadaeth gymysg. Gwelsom rai enghreifftiau effeithiol mewn gwaith achos ond nid oedd systemau na phrosesau ar waith i olrhain, dadansoddi a monitro anghymesuredd.
- Nid yw aelodau'r Bwrdd wedi cymryd camau digonol i ddarparu cymorth, hyd yn oed dros dro i liniaru'r anawsterau staffio. Nid oes cynllun clir sy'n nodi sut y mae'r bwrdd yn bwriadu lleihau nifer y swyddi gwag ar gyfer staff yn y tymor byr neu'r tymor hir.

- Mae angen brys i gryfhau capasiti rheoli fel y gellir datblygu gwaith partneriaeth. Mae'n anodd gweld sut y gall mynediad y bwrdd at wybodaeth a data wella heb ddarpariaeth ychwanegol arbenigol, gan gynnwys cymorth busnes.
- Mae'r cynllun gweithredu a gynhyrchwyd gan y bwrdd yn gyffredinol ei natur ac mae'n anodd gweld sut y bydd rhai problemau hirsefydlog yn cael eu datrys.
- Un flaenoriaeth yw deall dibynadwyedd a chywirdeb y data ar gyfer newydd-ddyfodiaid, ac yna defnyddio hyn i helpu'r holl bartneriaid i ddeall pa blant sydd angen ymateb gwahaniaethol, gan gynnwys plant mewn gofal a'r rheini sy'n cael eu hecsbloetio.

1.2. Staff



Mae staff yn y Timau Troseddau Ieuencid wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn.

Angen gwella

Cryfderau:

- Mae tîm arwain y GCI wedi gweithio'n galed i feithrin gwytnwch y tîm staff dros y 18 mis diwethaf. Maent wedi darparu hyfforddiant a chefnogaeth un-i-un i'r tîm cyfan.
- Mae'r tîm arwain wedi darparu negeseuon clir a chyson i staff, wedi sefyll ochr yn ochr â'r tîm yn ystod y cyfnod anodd ac wedi cyflawni eu haddewid i gynnig cefnogaeth a her. Mae hyn wedi cynnwys datblygu diwylliant agored lle mae barn a syniadau staff yn cael eu casglu a'u hateb cyn belled ag y bo modd.
- Datblygwyd ymddiriedaeth rhwng staff a rheolwyr ac mae staff nawr yn hyderus yn y penderfyniadau a wneir gan reolwyr. Nododd y staff fod rheolwyr yn hygyrch ac ar gael ac roeddent yn teimlo'n hyderus wrth drafod materion rheoli achosion gyda hwy, naill ai mewn adolygiadau ffurfiol fel paneli risg uchel, neu'n amlach wrth i faterion godi.
- Roedd y grŵp staff yn ganmoliaethus ac yn gadarnhaol am y tîm arwain newydd a'u gallu i reoli ac arwain y tîm tuag at arferion gwell. Roeddent yn hyderus bod y tîm arwain yn gwybod beth oedd ymarfer da, a bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi staff i gyflawni hyn.
- Mae goruchwyliaeth rheolwyr dros waith yn effeithiol ac mae wedi ysgogi gwelliannau o ran rheoli achosion. Roedd y staff yn gadarnhaol am oruchwyliaeth y rheolwyr, a gwelsom lefelau da o oruchwyliaeth a chefnogaeth effeithiol a arweiniodd at welliannau mewn ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o uwchgyfeirio gan yr arweinwyr pan ddaethant ar draws rhwystrau a wynebier gan staff a phlant. Yn yr achosion a arolygwyd gennym, roeddent o'r farn bod goruchwyliaeth gan reolwyr yn diwallu anghenion yr achos mewn 88 y cant o achosion parth dau ac 83 y cant o achosion parth tri.
- Teimlai'r staff fod amllder yr oruchwyliaeth yn iawn. Yn ein harolwg staff, dywedodd 17 allan o 20 fod yr ansawdd yn 'dda iawn', gyda'r tri arall yn dweud ei fod yn 'eithaf da'.
- Mae'r staff wedi datblygu'r hyder a'r sgiliau i ddefnyddio dull cyson o weithio gyda phlant. Mae hyn yn cynnwys gweithredu dull plentyn yn gyntaf ac ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.
- Er gwaethaf diffygion mewn lefelau staffio, mae rheolwyr achos yn gadarnhaol am eu gwaith gyda phlant a theuluoedd ac yn parhau i fod yn frwdfrydig iawn. Roedd staff yn aml yn mynd yr ail filltir i gefnogi plant i gael gafael ar wasanaethau a darparu ymyriadau angenrheidiol.
- Mae gan staff fynediad at amrywiaeth o hyfforddiant a chefnogaeth. Nodir eu hanghenion hyfforddi, ac mae cynlluniau hyfforddi ar gyfer staff yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau proffesiynol. Ceir diwylliant o

ddysgu a chefnogi parhaus gan gynnwys dysgu o fentrau ac ymchwil rhanbarthol a chenedlaethol.

- Mae'r cynllun hyfforddi ar gyfer 2023/2024 yn canolbwyntio ar wreiddio dull gweithredu plentyn yn gyntaf a chanllawiau arferion gorau, arferion sy'n seiliedig ar drawma, a gwella sgiliau asesu a gwybodaeth diogelu staff i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc agored i niwed.
- Mae staff hefyd wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar wydnwch. Darparwyd hyn gan Brifysgol Bangor fel rhan o ddull newydd a ddatblygwyd gan y Brifysgol sy'n gysylltiedig â phrosiect ymchwil parhaus sy'n gysylltiedig â Hwb Doeth. Roedd hyn yn flaenoriaeth i gefnogi lles ac iechyd meddwl staff.
- Mae lefelau ymgysylltu'r staff yn dda. Mae ymgynghori â staff yn parhau ac mae'n arwain at addasiadau o ran darparu gwasanaethau.
- Mae'r gwasanaeth yn rheoli llwythi gwaith yn weithredol. Mae staff wedi gallu cefnogi ei gilydd yn ystod cyfnodau o brinder ac i gyflenwi ar gyfer rhai absenoldebau salwch tymor hir.
- Mae'r gweithlu'n cynrychioli diwylliant Cymru. Mae plant yn gallu gweithio gyda staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r GCI yn deall y goblygiadau i blant sy'n cael eu lleoli yn Lloegr, lle na fyddent yn cael mynediad yn awtomatig at gwricwlwm Cymru, ac yn eiriol dros ddiwallu anghenion plant.

Meysydd i'w gwella:

- Nid yw'r lefelau staffio yn ddigonol. Mae'r gyfradd swyddi gwag yn oddeutu 25 y cant, er i'r arolygwyr nodi bod hyn yn welliant o 47 y cant chwe mis yn ôl. Mae swyddi gwag ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnwys swyddog prawf, gweithiwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), rheolwyr achos, staff cymorth busnes a rheolwyr.
- Nid oes darpariaeth arbenigol benodol ar gyfer iechyd, mae diffyg gwaith partneriaeth ynghylch camfanteisio troseddol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ansawdd cymysg mewn perthnasoedd â gwasanaethau gofal cymdeithasol, a lefelau uchel o absenoldeb salwch tymor hir. Mae colli gweithiwr rhiantu wedi bod yn arbennig o anodd, o ystyried lefel angen rhieni am gymorth gyda chamddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig, a nifer y plant sydd â rhieni yn y ddalfa.
- Mae'r llwyth gwaith ar ei uchafswm ac nid yw'n gynaliadwy. Mae hyn yn cael ei waethygu gan yr amser y mae'n rhaid i staff y GCI ei dreulio yn mynd ar ôl staff y bartneriaeth i gael gwybodaeth a mynediad at wasanaethau.
- Mae diffyg gweithwyr arbenigol yn arwain at fylchau sylweddol mewn gwybodaeth. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol o ran niwroamrywiaeth; lleferydd, iaith a chyfathrebu; cyngor ac arweiniad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16; a'r rhyngwyneb rhwng y GCI a'r gwasanaeth prawf.

1.3. Partneriaethau a gwasanaethau



Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn.

Annigonol

Cryfderau:

- Mae'r bwrdd yn cydnabod bod angen gwell data arnynt. Mae'r pennaeth gwasanaeth yn hyrwyddo'r defnydd o ddata ac mae'n deall yr angen i ddefnyddio hyn yn llawn i lywio darpariaeth a gwasanaethau partneriaeth. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau datblygu ei waith gyda dioddefwyr; er enghraifft, mae wedi sefydlu systemau i gael gwybodaeth am ddioddefwyr.
- Mae partneriaethau gyda'r heddlu yn effeithiol. Cefnogir y GCI gan Heddlu Gogledd Cymru drwy'r swyddog heddlu ar secondiad. Mae'n gallu cael gafael ar adrannau eraill; er enghraifft, mae'n gweithio gyda'r tîm ONYX i gefnogi plant sy'n cael eu hecsbloetio. Mae cysylltiadau rhwng yr heddlu a thimau plismona lleol y GCI i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddu lefel isel sy'n cynnwys plant.
- Mae'r gweithiwr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn helpu i ddatblygu perthynas ag ysgolion, er mwyn rhannu gwybodaeth, asesu risg a darparu cymorth i helpu plant i ddychwelyd i fyd addysg.

Meysydd i'w gwella:

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn faes hanfodol i'r gwasanaeth. Nid ydym yn hyderus bod pob plentyn yn derbyn yr ystod o wasanaethau personol o ansawdd da sydd eu hangen arnynt. Nid oes digon o wasanaethau partneriaeth i'w cael mewn nifer o feysydd allweddol gan gynnwys iechyd, addysg, diogelwch a lles a risg o niwed.
- Mae nifer y gweithwyr arbenigol ar y tîm wedi gostwng, a bu symudiad i ddarparu gwasanaethau gan ddefnyddio llwybrau cyffredinol. Gwneir atgyfeiriadau yn yr un ffordd ag ar gyfer unrhyw blentyn arall. Mae llwybrau a ffyrdd o atgyfeirio yn gymhleth, yn aneffeithiol neu mewn rhai achosion nid ydynt yn bodoli o gwbl ac nid oes strategaeth gomisiynu glir a chyson ar gyfer anghenion unigryw plant y GCI. Mae plant y GCI yn cael cymorth arbenigol cyfyngedig. Mae'r grŵp cymhleth hwn o blant yn aml yn gofyn am wasanaethau arbenigol i gefnogi ymatal, hyrwyddo diogelwch a llesiant, a chadw pobl eraill yn ddiogel, a ddarperir yn uniongyrchol, gyda'r nod o gefnogi mynediad yn y dyfodol drwy wasanaethau cyffredinol.
- Mae'r rhestrau aros yn hir ar gyfer llawer o wasanaethau ac ychydig o lwybrau chwim sydd ar gael i blant, gan gynnwys y rheini sy'n peri risg i bobl eraill.
- Roedd cyfarfodydd aml-asiantaeth i gefnogi diogelwch a lles plant a'r risg o niwed i eraill yn aneffeithiol ac yn brin o ffocws.
- Nid oes dadansoddiad cyfredol a digonol o anghenion ymatal plant, na'r materion neu'r gwasanaethau diogelu sydd eu hangen i reoli'r risg o niwed. Gwneir penderfyniadau ar ddata rhannol.

- Nid yw gweithwyr arbenigol wedi'u gwreiddio yng ngwasanaeth y GCI, gan gynnwys gweithwyr sy'n darparu cymorth i blant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio troseddol a rhywiol, gweithwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu, a chynghor gyrfaoedd ôl-16. Mae rhai o'r gwasanaethau statudol yn absennol, gan gynnwys y gwasanaeth prawf ac iechyd. Mae diffyg swyddog prawf wedi cael effaith ar drawsnewidiadau a rheoli risg a diogelwch a lles plant.
- Gwnaethom asesu nifer o achosion lle'r oedd gan blentyn riant yn y ddalfa. Roedd diffyg cyfathrebu a chynllunio ar y cyd yn golygu nad oedd y risg a nodwyd i blant gan yr oedolion hyn yn cael ei dadansoddi na'i deall yn effeithiol.
- Nid oes **dim** darpariaeth uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau iechyd gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol, niwroamrywiaeth na darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Mae'r gwasanaeth cynghor gyrfaoedd i bobl ifanc dros 16 oed wedi cael ei dynnu o'r CGI yn ddiweddar. Mae hwn yn gam ôl.
- Mae staff newydd a gyflogir i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol yn dal yn y broses o gynefino. Er eu bod yn addawol, nid ydynt yn gwbl effeithiol eto.
- Nid yw'r systemau cyfeirio'n glir nac yn systematig, a phrin iawn yw'r gwaith o olrhain y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn erbyn yr angen. Nid oedd yartneriaid yn gwybod a oedd plant a allai ddefnyddio'r GCI yn defnyddio eu gwasanaethau neu a oedd y ddarpariaeth gwasanaeth yn ddigonol. Nid yw'rartneriaethau'n defnyddio data wedi'i segmentu i ddeall y gwasanaeth y mae eu plant yn ei dderbyn.
- Nid oedd holl staff yartneriaeth yn deall sut y dylent ac y gallent gyfrannu at weithio gyda'r GCI.
- Prin iawn yw'r gwaith o adolygu a gwerthuso ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganartneriaid. Nid yw hyn wedi cael ei lywio gan adborth gan blant neu rieni a gofalwyr.
- Roedd trefniadau aml-asiantaeth ar gyfer camfanteisio ar blant a threfniadau rheoli risg yn brin o eglurder a chydlyniad. Rhoddwyd llai o flaenoriaeth i gyfarfodydd rheoli risg mewnol y GCI ar draws yartneriaeth na chyfarfodydd amlasiantaeth eraill.

1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau



Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Angen gwella

Cryfderau:

- Mae systemau TG ar waith i rannu gwybodaeth â'r heddlu, ac i gefnogi'r gwaith o reoli achosion yn effeithiol.
- Ceir amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau newydd a chyfredol. Mae staff wedi cael eu hyfforddi a'u cefnogi i'w defnyddio.
- Mae plant yn cael eu gweld mewn amrywiaeth o leoliadau yn y gymuned. Ychydig a welir yn y brif swyddfa.
- Mae plant o Sir Ddinbych yn ei chael yn anodd cyrraedd y swyddfa ganolog ym Mae Colwyn, oherwydd amseroedd teithio a phellteroedd.
- Ymgynghorwyd â'r plant ynghylch defnyddio adeiladau, ac mae strategaeth gyfranogi ar waith. Dyma ddechrau'r gwaith o ymgynghori â phlant a defnyddio eu hadborth i lunio gwasanaethau.
- Mae gan yr heddwys fynediad llawn at systemau TG y GCI a'r heddlu, a gwybodaeth ymarferol dda amdanynt. Mae gan system rheoli cofnodion yr heddlu system fflagio effeithiol. Mae swyddogion heddlu'r GCI yn defnyddio hyn yn effeithiol ar gyfer yr holl blant sy'n cael eu rheoli gan y GCI.
- Mae'r pennaeth gwasanaeth wedi'i integreiddio'n effeithiol i systemau dysgu rhanbarthol Cymru ac ymchwil academiaidd.

Meysydd i'w gwella:

- Nid yw polisiau wedi cael eu gweithredu'n llawn oherwydd diffyg gwaith effeithiol gydag asiantaethau partner ac am nad yw gweithwyr partneriaethau yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Mae'r defnydd o ddata a gwybodaeth i wella gwasanaethau yn gyfyngedig iawn, a dim ond megis dechrau y mae hynny. Mae diffyg staff cymorth busnes wedi effeithio ar hyn. Mae gweithredu system rheoli achosion Child View yn ddiweddar wedi gwella gallu'r gwasanaethau i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy i reolwyr a'r bwrdd, ond newydd ddechrau y mae'r gwaith o ddatblygu data a gwybodaeth am berfformiad.
- Mae dogfennau polisi'r GCI yn cynnwys yr angen i nodi anghymesuredd a'i effaith. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at strategaethau penodol i ddadansoddi a oes dedfrydu neu ganlyniadau anghymesur ar gyfer grwpiau penodol.
- Mae mynediad at wybodaeth am Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, gan gynnwys presenoldeb yn yr ysgol, yn gwella. Ond nid yw systemau'n cael eu symleiddio ac nid oes mynediad uniongyrchol at ddata addysg. Darperir hyn fesul ysgol.
- Nid oes pwynt mynediad canolog at wybodaeth iechyd, gan gynnwys hysbysiadau am blant sydd wedi cael eu gweld mewn adran damweiniau ac achosion brys. Byddai'n rhaid i hysbysiadau ddod drwy'r ganolfan ddiogelu amlasiantaeth (MASH). Er bod systemau da ar waith yng Nghonwy, nid yw'r rhain yn bodoli yn Sir Ddinbych.

Cynnwys plant a'u rheini neu ofalwyr

Mae'r GCI wedi datblygu strategaeth gyfranogi, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru y dylid ymgynghori â phob plentyn ynghylch y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r strategaeth wedi cael ei harwain gan y pennaeth gwasanaeth ac mae'n cael ei chefnogi gan y tîm staff.

Yn ddiweddar, rhannwyd barn plant gyda'r bwrdd rheoli cyfiawnder ieuencid, ac mae hyn wedi bod yn allweddol o ran helpu'r bwrdd i ddeall sut y mae plant yn dod i gysylltiad ag asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae ymgynghori â phlant a'u cyfranogiad yn flaenoriaethau i'r bwrdd, ac mae wedi gosod camau gweithredu ar sut i gyflawni hyn.

Yn y gwaith achos a arolygwyd gennym, gwelsom fod ymarferwyr fel mater o drefn yn ceisio barn a safbwyntiau plant, a barn eu rhieni. Defnyddiwyd eu barn i oleuo asesiadau ac i roi cyfeiriad i gynlluniau. Manteisiodd y staff ar gyfleoedd i gefnogi rhieni i gryfhau eu perthynas â phlant.

Roeddem wedi ceisio siarad â phlant yn uniongyrchol ond nid oedd yr un ohonynt wedi derbyn y cynnig o gael trafodaeth gyda ni. Siaradodd un rhiant â ni ac roedd yn canmol y gwaith a wnaed gyda'i phlentyn:

“Dywedodd wrthym nad oedd gan ei mab lawer o fodolau rôl gwrywaidd. Canmolodd y gweithiwr am allu uniaethu â'i mab fel oedolyn – heb ddangos unrhyw farn na'i drin yn ormodol fel plentyn. Aeth ymlaen i ddweud bod mynediad at addysg yn fwllch i'w phlentyn ond nid oedd yn gweld hyn fel problem i'r GCI, y mae'n ymddangos ei fod wedi ymdrechu'n galed i'w ddatrys.”

Ar ein rhan, cysylltodd y GCI â phlant a rhieni a oedd ag achosion agored adeg yr arolygiad, i gael eu caniatâd ar gyfer arolwg testun. Fe wnaethom gyflwyno'r arolwg yn annibynnol i'r chwech a roddodd ganiatâd, ac atebodd pump. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau a'r adborth yn gadarnhaol am y gwaith yr oedd y gwasanaeth yn ei gyflawni ac yn cynnwys:

“Mae'r cyswllt rydyn ni wedi'i gael gyda nhw wedi bod yn dda ac mae'r person rydyn ni'n ei weld yn hawdd siarad â nhw ac yn barod iawn i helpu ac yn gwrtais.”

“Mae fy mab wedi cadw draw oddi wrth yr holl bobl yr oedd yn gysylltiedig â nhw, yr aeth i drafferthion gyda nhw, ac mae wedi parhau i gadw draw o drwbl.”

Amrywiaeth

Mae'r GCI wedi rhoi sylw i ofynion Llywodraeth Cymru. Mae ei bolisiau a'i weithdrefnau yn unol â'r glasbrintiau a'r dyheadau perthnasol ar gyfer plant yng Nghymru.

Mae'r plant yn gallu cael gafael ar staff sy'n siarad Cymraeg. Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i blant a rhieni. Roedd staff yn deall pwysigrwydd adnabod plant sy'n ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda nhw. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd da i blant weithio gyda staff sy'n hyrwyddo ac yn sefydlu hunaniaeth a diwylliant Cymreig wrth ddarparu gwasanaethau.

Gwelsom enghreifftiau o staff yn teilwra eu dulliau er mwyn diwallu ystod eang o anghenion amrywiol. Er enghraifft, roeddent yn addasu iaith i wella dealltwriaeth plant, yn gweld plant o gwmpas eu hysgol a'u hymrwymiaadau gwaith ac, yn benodol, yn helpu plant i gael mynediad at eu cymuned a bod yn rhan ohoni.

Mae'r gwasanaeth wedi ystyried sut mae'n gweithio gyda merched ac roedd yn edrych ar sut y gallai gweithio gyda nhw fod yn fwyaf effeithiol. Roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn deall bod merched yn ymgysylltu â'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol, ac yn teilwra eu gwaith yn briodol.

Roedd ymarferwyr wedi cydnabod anghenion amrywiol plant mewn 75 y cant o'r achosion parth dau a arolygwyd gennym. Gostyngodd hyn i 67 y cant ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys.

Byddai dadansoddiad manwl o anghenion strategol yn helpu'r bartneriaeth i deilwra gwasanaethau i ehangder ac ystod yr amrywiaeth yng ngharfan y GCI.

Mae rhestr aros hir am gymorth ar gyfer anghenion niwroamrywiol, ac ychydig o lwybrau chwim sydd ar gael i blant y GCI. Er bod staff wedi gwneud eu gorau i'w cefnogi, nid oedd rhai plant erioed wedi cael gweithiwr iechyd proffesiynol yn asesu eu hanghenion niwroamrywiol. O ganlyniad, roedd yr anghenion hyn yn dal heb eu diwallu. I blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu posibl, roedd y darlun yn debyg. Er bod rhestrau aros yn fyrrach, gallai plentyn fod bron ar ddiwedd datrysiad y tu allan i'r llys cyn cael ei asesu.

Nid oedd llwybrau ymyrryd na chymorth systematig wedi'u cynllunio ar gyfer ymgysylltu'n llwyddiannus ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ar sail gwybodaeth am y garfan. Er enghraifft, nid oedd strategaeth i helpu plant i wneud cynnydd da o ran llythrennedd a rhifedd na'r iaith Gymraeg, nac i fynd i'r afael â'r lefel uchel o ddefnydd o amserlenni rhan-amser mewn addysg.

Roedd diffyg capasiti a mynediad at gymorth arbenigol yn ei gwneud yn anodd sefydlu llwybrau systematig. Roedd y defnydd o godio anghenion dysgu ychwanegol yn ddryslyd, a oedd yn golygu nad oedd anghenion dysgu ychwanegol plant yn cael eu hasesu na'u hadnabod yn ddigonol.

Ni fu dadgyfuno data i adolygu'r canlyniadau ar gyfer plant Du a threftadaeth gymysg, er bod y niferoedd yn cynyddu yn y boblogaeth gyffredinol yn Sir Ddinbych. Er bod y niferoedd yn isel yng Nghonwy, bydd y plant hynny'n weladwy iawn yn eu cymunedau ac mae'n hanfodol cael gwell dealltwriaeth o'u profiadau.

Ychydig o ystyriaeth a roddwyd i blant sy'n dod o gymunedau amrywiol, sut y maent yn defnyddio gwasanaethau ac a dynt yn cael canlyniadau cyfartal. Nid yw data am aildroseddu a gynhyrchir gan dîm arweinyddiaeth y GCI yn cael ei rannu'n ddata sy'n dangos a yw plant o gefndiroedd amrywiol yn cael eu cefnogi'n briodol.

Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Gwnaethom edrych yn fanwl a wyth dedfryd gymunedol a reolir gan y GCI.

2.1. Aseiad



Mae'r aseiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Angen gwella

Mae ein sgôr¹ ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	100%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	50%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	63%

Roedd y gweithgareddau asesu a oedd yn ymwneud â chefnogi anghenion ymatal plant yn ffocysedig, cyson a dadansoddol. Roedd ymarferwyr yn ystyried yn effeithiol pa gefnogaeth a chymorth oedd eu hangen ar blant i stopio neu leihau troseddu. Datblygodd y staff ddealltwriaeth dda o anghenion plant gan helpu'r plant i siarad am eu bywydau a beth oedd yn cyfrannu at droseddu. Roedd y staff wedi cysylltu'n gynhyrchiol ac yn gyson â'r rhieni er mwyn cael eu barn a chydbwysu'r rhain gyda barn y plant.

Roedd y gweithgareddau asesu a oedd yn ymwneud â diogelwch a lles plant yn anghyson. Roedd angen gofal a chymorth ar gyfran uchel o blant a oedd yn hysbys i'r GCI i'w cadw'n ddiogel.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd lefelau uchel o blant mewn perygl o gael eu hecsbloetio neu'n cael eu hecsbloetio. Er mwyn deall y risgiau hyn yn llawn, roedd angen i'r GCI, gofal cymdeithasol a'r heddlu weithio'n agosach gyda'i gilydd i nodi pryderon a gwybodaeth gyfredol. Gwelsom, er gwaethaf ymdrechion gorau rheolwyr achos, nad oedd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei darparu'n ddigon cyflym i gefnogi gweithgarwch asesu. Pan oedd gan reolwyr achos berthynas dda â gweithwyr eraill, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol, gwelsom enghreifftiau o gyd-ddealltwriaeth o anghenion y plentyn. O ganlyniad, roedd yr asesu'n gywir ac yn rhoi darlun cyfannol o'r plentyn. Fodd bynnag, roedd angen dealltwriaeth fwy systematig ac ehangach o'r cyfraniad y dylai partneriaid fod yn ei wneud i weithgarwch asesu, a lle nad oedd perthnasoedd wedi'u sefydlu, nodwyd bylchau yn y broses o rannu gwybodaeth, a meysydd allweddol lle nad oedd y gwaith i gefnogi a diogelu plant yn ddigonol nac yn gyson.

Roedd y gwaith o asesu'r risg o niwed a berir gan blant i eraill yn gymysg, er bod y staff yn dda am dynnu sylw at sbardunau hysbys a'r cyd-destunau lle gallai niwed fod yn bresennol. Nid oedd gan blant yr oedd y gwasanaeth yn gwybod amdanynt fynediad cyflym at aseidiadau arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys aseidiadau o anghenion lleferydd,

¹ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

iaith a chyfathrebu a niwroamrywiaeth, er bod bron i hanner y plant yn cael eu hamau o fod yn niwrowahanol. Gallai rheolwyr achos geisio barnu effaith y ffactorau hyn ar debygolrwydd plentyn o niweidio eraill, fel defnyddio trais pan fyddant yn teimlo'n rhwystredig neu fethu cyfathrebu'n effeithiol, ond heb y cymorth arbenigol a geir fel arfer mewn GCI, ni allent ddilysu hynny. Roedd y gweithgaredd asesu yn wannach o ganlyniad i hynny mewn perthynas â chadw pobl eraill yn ddiogel.

2.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Angen gwella

Mae ein sgôr² ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	88%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	50%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	75%

Gwelsom fod gan gynllunio i gefnogi ymataliad ffocws da a'i fod yn gymesur. Darparodd y GCI amrywiaeth o ymyriadau, ac roedd rheolwyr achos yn ystyried y rheini yn eu cynlluniau a fyddai o'r budd mwyaf i'r plentyn. Siaradwyd â phlant, rhieni a gofalwyr am gynlluniau, ac roedd y rhain wedi'u teilwra i gynnwys y materion pwysicaf yn eu barn hwy. Roedd ystyriaeth wedi'i rhoi wrth gynllunio ar gyfer dilyniant ymyriadau a lle byddent yn cael eu darparu.

Mewn hanner yr achosion lle roedd angen cynllunio'n glir gyda phartneriaid eraill i gadw plant yn ddiogel, nid oedd hyn wedi digwydd neu roedd yn aneffeithiol. Mewn rhai achosion, er gwaethaf gwaith rheolwyr achos yn ymgysylltu â phartneriaid eraill, roedd diffyg dealltwriaeth o sut y dylai asiantaethau fod yn cefnogi gwaith ei gilydd. Roedd partneriaid yn dibynnu gormod ar y GCI i lunio cynllun a fyddai'n delio â'r ymddygiad a oedd yn deillio o sefyllfa'r plentyn yn hytrach na gweithio ar y rhain ar y cyd. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda gofal cymdeithasol, lle nodwyd rhai anawsterau o ran cael gafael ar gynlluniau gofal a diffyg meddwl neu weithio cydgysylltiedig. Pan ddigwyddodd hyn, roedd yn anodd i staff y GCI nodi sut roedd angen cynllunio eu gwaith er mwyn osgoi dyblygu a chefnogi'r gwaith y cytunwyd arno eisoes gan asiantaethau eraill. O ganlyniad, roedd cynllunio yn aml yn rhywbeth generig yn hytrach na phenodol.

Roedd y cynlluniau yn nodi amrywiaeth o waith a gynlluniwyd i leihau risg y plentyn o niwed i eraill, gan gynnwys gwaith un-i-un, ymwybyddiaeth o ddioddefwyr a gwaith gwneud iawn. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r plant ynghylch y risgiau roedden nhw'n meddwl roedden nhw'n eu hachosi i bobl eraill, ac roedd y rhain yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau. Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai'r gymuned edrych ar y plentyn a'r effaith ar aelodau ehangach o'r teulu.

² Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

2.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Angen gwella

Mae ein sgôr³ ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	100%
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	63%
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	75%

Roedd staff y GCI wedi darparu'r ymyriadau a'r camau gweithredu roeddent wedi'u cynllunio ac wedi ychwanegu rhagor o ymyriadau pan oedd eu hangen ar blant. Gwelsom staff yn gweithio gyda dyfalbarhad a phenderfyniad i ddenu asiantaethau eraill i mewn pan oedd angen iddynt weithio ar y cyd. Roedd hyn weithiau'n cael ei gyflawni drwy uwchgyfeirio materion ar draws rheolwyr tîm a phenaethiaid gwasanaeth i ddelio â rhwystrau. Roedd goruchwyliaeth rheolwyr wedi cael ei defnyddio'n effeithiol fel bod ymarferwyr a rheolwyr tîm yn cael trafodaethau'n aml am y cynnydd sy'n cael ei wneud a pha ymyriadau oedd wedi cael eu darparu. Roedd hyn wedi arwain at waith ymatal ymatebol yn cael ei wneud. Pan oedd angen, cymerodd staff gamau gweithredol i ailennyn diddordeb plant pe baent yn colli cymhelliant neu'n methu â chydymffurfio â gofynion eu gorchmynion.

Gwelsom ddefnydd da o amrywiaeth o wasanaethau cymorth yn y gymuned, gan gynnwys prosiect o'r enw Youth Shedz Cymru. Bu'r prosiect hwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant o naw oed ymlaen i'w cynnwys yn y gymuned leol drwy weithgareddau sy'n seiliedig ar brosiectau. Nod y prosiect oedd helpu plant i ddatblygu sgiliau a diddordebau newydd a bu'n canolbwyntio'n glir ar roi'r gymuned tra'n datblygu sgiliau. Roedd y prosiectau'n cynnwys trwsio beiciau, garddio a mecaneg moduron.

Roedd angen cydlynu gwaith yn well i gadw plant yn ddiogel. Gwelsom rywfaint o gydweithio effeithiol, ond mewn rhai achosion roedd asiantaethau'n gweithio ar wahân i'w gilydd yn hytrach na gyda'i gilydd. Roedd hyn yn amlwg pan oedd asiantaethau'n gweithio gyda nifer o aelodau o'r teulu. Mewn un enghraifft, roedd nifer o asiantaethau'n ymwneud ag un teulu, gan gynnwys yr heddlu, gofal cymdeithasol, addysg, y gwasanaeth cam-drin domestig, CAMHS a chymorth i deuluoedd. Roedd rhai gwasanaethau ar gyfer mam y plentyn; roedd eraill ar gyfer y person ifanc; roedd eraill ar gyfer brodyr a chwiorydd. Er bod llawer o weithgarwch, roedd yn ymddangos bod asiantaethau'n gweithio ar eu pen eu hunain. Daethant at ei gilydd yn unig i roi gwybod i'w gilydd am yr hyn yr oeddent yn ei wneud, yn hytrach nag ymyrryd yn unol â chynllun ffurfiol cyffredin a gwneud penderfyniadau mewn modd aml-asiantaeth a chydlynol. O ganlyniad, disgynnodd rhai problemau rhwng asiantaethau.

³ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

2.4. Adolygu



Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. Angen gwella

Mae ein sgôr⁴ ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	75%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	50%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	63%

Roedd adolygu'n rhan o'r gwaith o reoli achosion o ddydd i ddydd, felly, yn y rhan fwyaf o achosion, pan ddaeth gwybodaeth newydd i'r amlwg, cafodd ei hystyried yn gyflym. Roedd adolygiadau ffurfiol yn ymateb i newidiadau. Roedd ffocws clir ar gefnogi ffactorau amddiffynnol y plentyn a deall a oedd cyd-destun cymdeithasol a theuluol y plentyn wedi newid. Arweiniodd adolygu ymatal at addasiadau a newidiadau yn y dulliau sy'n cael eu darparu. Nod y rhain oedd cadw diddordeb a chymhelliant y plentyn, ac roeddent yn cynnwys newid lle cafodd y plentyn ei weld a hyd y sesiynau os oeddent wedi ymddieithrio. Os nad oedd yn ymddangos bod plant yn elwa o ymyriadau, cafodd y rhain eu newid, eu hadolygu a'u diweddarau i gynyddu eu heffaith.

Roedd swyddi gwag ar gyfer gweithwyr partneriaeth, yn enwedig yn y gwasanaeth prawf, yn golygu bod diffyg cynllunio ar y cyd pan oedd adolygiadau'n nodi bod mwy o risg i blant gan eraill. Roedd enghraifft yn cynnwys pan oedd rhiant yn y carchar ac yn peri perygl i blentyn. Wrth adolygu'n briodol, nodwyd newid mewn amgylchiadau, fel rhieni ar fin cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Fodd bynnag, ychydig o wybodaeth a rannwyd gan y gwasanaeth prawf am ddyddiadau rhyddhau, cyfeiriadau neu gynlluniau i gadw'r plentyn yn ddiogel. Roedd hyn yn golygu mai dim ond ar y funud olaf y gellid gwneud cynlluniau diogelwch ar gyfer y plentyn ac roedd yn atal blaengynllunio effeithiol.

Yn gyffredinol, gwahoddwyd rheolwyr achos y GCI i adolygiadau a gynhaliwyd gan asiantaethau eraill, ond roedd hi'n anodd tracio pa gyfarfodydd oedd yn cael blaenoriaeth. Roedd paneli risg uchel, a gynhaliwyd gan y GCI, weithiau'n cael eu canslo os oedd grŵp craidd neu gyfarfod gweithwyr proffesiynol eisoes wedi'i gynllunio. Er bod hyn yn gwneud synnwyr o ran defnyddio cyfarfodydd yn effeithiol, canfuom nad oedd y cyfarfodydd hynny a oedd yn cael blaenoriaeth o reidrwydd yn dod â phob agwedd ar y plentyn, a'i anghenion, at ei gilydd i sicrhau ymateb cydlynol i gefnogi diogelwch a lles y plentyn na rheoli ei risg i eraill yn effeithiol.

⁴ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar 12 achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys dau rybudd amodol i bobl ifanc, dau rybudd i bobl ifanc ac wyth datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfnewid y rheolwyr achos mewn 11 achos.

3.1. Aseiad



Mae'r aseiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr⁵ ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	83%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	75%
A yw'r aseiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

Roedd gweithgareddau asesu plant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu cynnal i safon gyson. Roedd amrywiaeth o wiriadau yn cael eu gwneud a arweiniodd at aseuadau a oedd yn nodi'n glir y materion a oedd wedi cyfrannu at droseddu plentyn. Cafodd cryfderau'r plentyn eu nodi'n dda, ac roedd barn dioddefwyr ar gael i gefnogi'r gweithgaredd asesu. Gwelsom fod barn plant, rhieni a gofalwyr yn cael ei hystyried a'i chynnwys. Byddai ychwanegu cynrychiolydd gofal cymdeithasol ar y panel yn cefnogi'r defnydd o wybodaeth diogelu a gwneud penderfyniadau cyn gynted â phosibl a gwelsom fod angen cryfhau'r defnydd o wybodaeth diogelu a oedd yn cael ei dal gan asiantaethau eraill. Roedd defnyddio gwybodaeth am Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn gyson ac yn effeithiol wedi cyfrannu at asesu anghenion plant o ran Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth.

Wrth asesu'r risg bosibl o niwed i eraill, roedd modd cyfiawnhau dosbarthiadau. Fodd bynnag, roedd gweithgarwch asesu yn tueddu i ganolbwyntio ar y digwyddiad mwyaf diweddar, yn hytrach nag ystyried ymddygiad mewn ffordd gyfannol i lywio gweithgarwch asesu. Gwelsom hefyd rywfaint o oedi wrth brosesu achosion i'r GCI, ac roeddem o'r farn bod yr oedi hwn yn ei gwneud yn anodd i rai rheolwyr achos gydbwysu'r pryderon posibl â'r amser a aeth heibio ers y digwyddiad.

Darparwyd goruchwyliaeth dda o weithgareddau asesu gan reolwyr i ymarferwyr ac roedd hyn yn cefnogi rheolwyr achos yn eu hymarfer.

⁵ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

3.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr⁶ ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?	92%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	75%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

Roedd ansawdd asesiadau a chyfraniad y panel at nodi'r camau nesaf yn hwyluso cynllunio effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi ymataliad plant. Gwelsom enghreifftiau o'r panel yn rhoi cyfeiriad clir i'r meysydd yr oedd angen gweithio arnynt gyda'r plentyn, a oedd wedyn yn cael eu troi'n weithgareddau cynllunio. Gan ddefnyddio'r cynllun cynllunio a chymorth (PASP), nododd ymarferwyr gamau gweithredu clir i'w cymryd, gan gynnwys amrywiaeth o ymyriadau sy'n cyd-fynd â'r drosedd, a oedd hefyd yn ystyried anghenion y plentyn. Darparodd y PASP fecanwaith da ar gyfer cyfuno'r cynllun gyda'r asesiad.

Gwelsom hefyd gynnwys barn plant a rhieni neu ofalwyr wrth ddatblygu cynlluniau.

Mewn un achos, nodwyd y canlynol:

“Roedd y cynllunio'n cynnwys y plentyn ac yn caniatáu iddo gyfrannu at yr hyn yr oedd yn credu a fyddai'n ei helpu o ran ei ymddygiad a'i ddyfodol. Amlinellwyd sefydlogi ei gyflwr ADHD drwy ei feddyg teulu a CAMHS fel ffordd o gael effaith gadarnhaol ar ei ymataliad. Roedd y cynllunio'n ystyried anghenion ymlyniad y plentyn, sut mae ei ADHD yn effeithio ar ei lefelau canolbwyntio, ac yn nodi ei ddiddordebau cadarnhaol.”

Er mwyn gwella'r cynllunio, roedd angen i'r GCI gydlynu ei waith yn well gyda gwaith asiantaethau partner. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer cynllunio ar gyfer gadael, pan ddaeth y cyswllt, gwirfoddol ei natur yn bennaf, â'r GCI i ben, ac roedd angen asiantaethau eraill i ddarparu cymorth parhaus. Roedd angen i'r GCI hefyd gynnwys cynlluniau wrth gefn effeithiol yn fwy cyson, ar gyfer y risgiau y gellid eu rhagweld, fel rhan o brosesau PASP.

⁶ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

3.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Da

Mae ein sgôr⁷ ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	92%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	75%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	92%

Gweithredu a darparu datrysiadau y tu allan i'r llys oedd maes gwaith cryfaf y GCI ac mae'n glod i ymarferwyr eu bod wedi addasu eu ffyrdd o weithio i roi'r canlyniadau gorau posibl i blant yn absenoldeb gwasanaethau partneriaeth effeithiol. Gwelsom enghreifftiau o reolwyr achos yn defnyddio llyfrau gwaith i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol, ymyriadau camddefnyddio sylweddau fel SWEET, defnyddio'r model bywydau da, a'r llyfr gwaith un ergyd. Roedd rheolwyr achos hefyd yn dangos dycnwch a chadernid sylweddol o ran cefnogi plant i'r pwynt lle gallent ac y byddent yn cael mynediad at wasanaethau drwy'r llwybrau cyffredinol.

Fodd bynnag, pe bai partneriaid wedi bod yn bresennol yn y GCI, gallai'r plant fod wedi defnyddio'r gwasanaethau'n gyflymach, yn fwy effeithiol, a gyda mwy o effaith gadarnhaol. Ar gyfer ymarferwyr y GCI, roedd y lefelau paratoi a oedd yn gysylltiedig â chynnal cymhelliant plant a chael cymorth priodol yn absenoldeb gwaith partneriaeth sydd wedi'i wreiddio, yn cyfrannu at bwysau diangen ar lwyth gwaith, ac yn aml yn effeithio ar yr hyn y gellid ei gyflawni yn yr amser a oedd ar gael.

Roedd rheolwyr achos yn ystyried integreiddio cymunedol yn dda. Manteisiwyd ar gyfleoedd i ddod o hyd i wasanaethau lleol a fforddiadwy a fyddai o ddiddordeb i'r plant a'u cefnogi i roi'r gorau i gysylltu â phobl yr oeddent wedi troseddu â hwy.

Roedd gwaith i gefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol yn cael ei gyflawni'n gyson dda, ac eto defnyddiodd yr ymarferydd amrywiaeth o ymyriadau ac adnoddau i gyflawni hyn.

⁷ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael ar ein gwefan.](#)

3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys



Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy.

Angen gwella

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweiliadau. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

Cryfderau:

- Adolygwyd y polisi a'r weithdrefn ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys 18 mis yn ôl. Mae cynlluniau newydd i atal plant rhag troseddu wedi cael eu hychwanegu at y gyfres o weithgareddau atal, gan gynnwys Turnaround a Second Chance.
- Roedd ansawdd y ddarpariaeth mewn datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel yn gyson ar draws asesu, cynllunio a darparu.
- Mae systemau a phrosesau wedi'u cynllunio i atal plant rhag troseddu cyn gynted ag y bo modd. Gwelsom ddefnydd effeithiol o ymyriadau yn y gymuned i roi gweithgareddau cadarnhaol a phwrpasol i blant.
- Mae'r panel datrysiadau y tu allan i'r llys yn cyfarfod bob pythefnos ac yn dyrannu asesiadau. Mae hefyd yn casglu gwybodaeth ynghylch a yw gofal cymdeithasol eisoes yn ymwneud â'r teulu. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y gweithiwr dioddefwyr yn rhan o'r panel i gynghori a sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael eu clywed.
- Mae panel atal ar wahân sy'n ceisio atal plant rhag cael eu denu i ddatrysiad y tu allan i'r llys. Efallai y bydd rhai plant yn cael eu clywed yn y ddau banel dros amser, yn dibynnu ar y digwyddiad.
- Mae trefniadau ar waith i'r panel wneud atgyfeiriadau i'r MASH yng Nghonwy. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg gofal cymdeithasol ar y panel, mae hyn yn dibynnu ar y GCI yn gwneud y penderfyniad, yn hytrach na bod y panel yn cael cyngor gan ofal cymdeithasol.

Meysydd i'w gwella:

- Weithiau, mae oedi y gellir ei osgoi wrth ymchwilio i droseddau a gyflawnir gan blant. Mae hyn yn arwain at oedi hir ym mhroses y panel datrysiadau y tu allan i'r llys. Bydd swyddog heddlu'r GCI yn mynd ar drywydd yr achos gyda'r heddlu cymunedol pan fydd hyn yn digwydd, ond gwelsom oedi o fisoedd mewn achosion a arolygwyd gennym. Er enghraifft, mewn un achos roedd oedi o 12 mis yn yr ymchwiliad, cyn i'r achos gael ei gyfeirio at y GCI. Mewn tri achos arall, roedd yr oedi rhwng pedwar a phum mis.
- Nid oes cynrychiolydd gofal cymdeithasol o Gonwy na Sir Ddinbych ar y paneli. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i ddarparu cefnogaeth cyn gynted â phosibl.
- Prin yw'r hyfforddiant sydd ar gael i'r rheini sydd ar y panel ar gamfanteisio troseddol ar blant, camfanteisio'n rhywiol ar blant neu ddiogelu plant. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r panel i nodi ymddygiadau sy'n dangos bod plant yn cael eu hecsbloetio.

- Defnyddiwyd gwybodaeth berthnasol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn asesiadau mewn ychydig dros hanner yr achosion a aseswyd. Roedd y diffyg gwybodaeth am anghenion iechyd yn fwch sylweddol.
- Mae'r un problemau partneriaeth sy'n bodoli ar gyfer plant â gorchmynion statudol yn berthnasol i blant sy'n ymwneud â datrysiadau y tu allan i'r llys. Nid yw ymyriadau a gynigir gan reolwyr achos bob amser yn cael eu cyflawni oherwydd oedi wrth gyfeirio.
- Mae'r heddwes wedi ymrwymo i waith atal ac wedi cyflawni'r gwaith atal troseddau cyllyll mewn ysgolion. Mae angen i'r GCI ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer gwaith atal er mwyn galluogi'r heddwes i ganolbwyntio ar ei swyddogaeth graidd fel swyddog ar secondiad gyda'r GCI.
- Nid oes digon o graffu strategol ar waith datrysiadau y tu allan i'r llys. Gofynnwyd i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau graffu rhywfaint ar y broses o wneud penderfyniadau er mwyn rhoi sicrwydd ac adborth i'r panel.
- Nid yw'r bwrdd yn gwybod a yw gwasanaethau atal y GCI yn cyfrannu at leihau cyfraddau newydd-ddyfodiaid. Mae dadansoddiad y GCI yn dangos cyfradd aildroseddau o 18 y cant ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, ond dim ond ar blant sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau y mae'r ffigur hwn yn seiliedig. Mae angen dadansoddiad pellach i ddeall y profiad a'r canlyniadau i blant sydd yn gysylltiedig â datrysiadau y tu allan i'r llys.

4.1. Adsefydlu

4.1. Polisi a darpariaeth adsefydlu

Mae gwasanaeth adsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed.

Ni chafodd y safon hon ei sgorio

Rydym wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith adsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Nid oedd unrhyw achosion adsefydlu i ni eu harchwilio. O ganlyniad, nid ydym wedi rhoi sgôr i'r safon hon, gan nad oeddem yn gallu profi'r polisi a'r ddarpariaeth. Yn hytrach, rydym wedi rhoi disgrifiad o'r ffactorau a ystyriwyd gennym. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

Cryfderau:

- Roedd y GCI wedi datblygu polisi adsefydlu ar sail tystiolaeth ar gyfer y cyfnod 2023-2026. Mae hwn yn nodi'r camau sydd eu hangen i gefnogi'r plentyn, yn ystod y cyfnod yn y ddalfa ac er mwyn ei baratoi ar gyfer cael ei ryddhau i'r gymuned.
- Mae amrywiaeth o ddogfennau canllaw wedi'u cynnwys yn y polisi sy'n rhoi un pwynt cyfeirio i staff.
- Mae'r trefniadau'n nodi sut i wneud gwaith ar y cyd gyda gofal cymdeithasol i ddiogelu'r plentyn. Yn yr un modd, disgwylir i'r GCI ddefnyddio fforymau achos cymhleth a phaneli risg uchel.
- Mae'r polisi'n nodi sut i gasglu a defnyddio gwybodaeth am anghenion amrywiol y plentyn fel rhan o'r asesu a'r cynllunio, gan gynnwys sut mae'r plentyn yn ystyried ei hunaniaeth.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd unrhyw achosion adsefydlu ar hyn o bryd er mwyn i ni brofi effeithiolrwydd y polisi adsefydlu. Er ein bod yn hyderus y byddai staff y GCI yn gweithio'n galed i wneud eu gorau, nid yw diffyg gwaith partneriaeth effeithiol yn rhoi llawer o hyder y bydd partneriaid yn blaenoriaethu anghenion plant sy'n paratoi i gael eu rhyddhau o'r ddalfa.
- Gwelsom hefyd fod llety i blant yn her benodol. Roedd plant agored i niwed yn cael eu rhoi mewn lleoliadau gwely a brecwast anaddas lle'r oedd troseddwy'r oedd yn oedolion hefyd yn cael eu lleoli. Roedd hyn yn peri pryder i ni ynghylch beth fyddai'n digwydd petai angen dod o hyd i lety ar gyfer rhyddhau ac adsefydlu plentyn.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r canlynol i'w gweld ar ein gwefan:

- [data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI](#)
- [rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.](#)